

CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWIYD NOS FAWRTH, 11eg MEHEFIN 2024 AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.

1. **PRESENNOL** - Dafydd Thomas (Cad) (Nebo), Ceri Owen, Justin Davies, Dylan Herbert, Barry Bracegirdle (Penygroes), Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts (Llanllyfni), Siân Dafydd, Gareth Jones, Nigel Williams (Talysarn), Cyng. Peter Thomas.

YMDDIHEURIADAU – Judith Humpherys, Erfyl Williams (Penygroes), Gerallt Hughes (Nantlle), Harry Owen (Talysarn)

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd Dafydd Thomas

2. **DATGAN BUDDIANT** – nid oedd neb yn datgan buddiant mewn unrhyw fater ar yr agenda.

3. **CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD 14eg MAI 2024** - cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION AC YMATEBION CYNGOR GWYNEDD** - **System Unffordd Ysgol Talysarn** - adroddodd Cyng. Thomas ei fod yn cael cyfarfod rhithiol yfory gyda swyddog o Gyngor Gwynedd a Phrifathrawes Ysgol Talysarn a bydd yn adrodd yn nôl yn y cyfarfod nesaf.

5. **ADRODDIADAU GAN Y CYNGHORWYR SIR** – diolchwyd i'r Cyng. Thomas am ei adroddiad yr oedd pawb wedi ei dderbyn ymlaen llaw i'r cyfarfod. Nid oedd dim yn codi o'r adroddiad a diolchwyd iddo am ei waith.

6. **CYFARFODYDD IS-BWYLLGORAU** – nid oedd cyfarfodydd wedi bod yn ystod y mis.

7. **TAFLEN ARIANNOL A CHYLLID** - roedd pawb wedi derbyn y cyfrifon ymlaen llaw i'w cyfarfod er mwyn cael cyfle i edrych drostynt. Nid oedd dim yn codi o'r cyfrifon. **Archwiliad mewnol 2023/24** - adroddwyd bod yr archwilydd mewnol wedi dod nôl gydag ychydig o bethau a oedd yn codi cyn medru cadarnhau'r archwiliad mewnol. Nodwyd nad oedd y Cyngor Cymuned llawn wedi cofnodi eu bod yn cymeradwyo'r swm taladwy o £5382.00 o ôl-daliad cyflog (cyn tynnu yswiriant gwladol, paye a pensiwn) i'r clerc. Trafodwyd hyn a chytunwyd yn unfrydol bod y pwyllgor wedi cytuno i dalu'r swm hwn. Codwyd hefyd o'r archwiliad bod angen edrych dros y cyfraniadau A137 a bod angen eu gwahanu a chywiro'r ffigwr ar y datganiad. Roedd yr archwilydd hefyd wedi awgrymu i ni addasu costau staff llai y treuliau ar y datganiad. Yn dilyn trafodaeth cynnigwyd ac eilwyd i'r clerc wneud yr addasiadau a awgrymwyd. Gofynnwyd i'r clerc ymateb yn nôl i'r archwilydd. **Ffurflenni lwfansau aelodau 2024/25** - derbyniwyd ffurflenni nôl gan y cyngorwyr, ond dal angen ambell un yn nôl felly gofyn i'w cael yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

8. **LLWYBRAU A MYNWENTYDD** - adroddwyd bod sbwriel dal i gael ei adael ym Mynwent Macpela ac felly eisiau cael prisiau ar roi biniau yn nôl yno. Rhaid nodi nad oes sbwriel yn cael ei adael yng Ngorffwysfa a hoffai'r cyngor ddiolch yn fawr i ymwelwyr y fynwent am barchu'r rheolau hyn a chadw'r fynwent yn daclus. Holwyd os bydd giatiau'r mynwentydd ar agora r gyfer Sul Y Tadau fel y pasiwyd rhai blynyddoedd yn nôl. Ni fydd y giatiau ar agor gan fod mynedfa yno i'r defnyddwyr. Nid yw'r gwaith o osod y beipen ddŵr wedi ei wneud eto - angen holi pryd. **Llwybrau** - adroddwyd bod problem gyda rhai o'r llwybrau nad ydynt yn cael eu torri o un flwyddyn i'r llall er eu bod ar restr y contractwyr i'w torri. Angen cysylltu gyda'r contractwyr am hyn a gofyn am restr fisol o'r llwybrau maent yn torri. Hefyd, angen copi o yswiriant cyfredol gan y contractwyr.

9. **MATERION PENTREFI - Talysarn** - cyflwr y ffyrdd yn gwaethygu yn fisol ac angen sylw. Gofyn a oes modd cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i ofyn pryd byddent yn dod o gwmpas yr ardal gyda chwynladdwr. Cwynion wedi eu derbyn am oryru yn yr ardal 15mya. Cwynion hefyd bod yna lawer o sgwteri trydan yn cael eu defnyddio o gwmpas y pentref - nid oes golau arnynt ac maent yn dod ar gryn gyflymder sydd yn beryglus iawn. **Llanllyfni** - y twll ar Lôn Ddŵr dal heb gael sylw. Adroddwyd bod criw o Alabama yn dod i'r ardd gymunedol yfory i helpu gyda'r gwaith a bydd S4C yno yn recordio rhaglen Pnawn Da - estynnir croeso i unrhyw un o'r Cyngor Cymuned ymuno hefyd – dywedodd Dafydd y buasai yn fodlon mynychu. **Nasareth** - nodwyd nad oes bin sbwriel o gwbl yn Nasareth ac mae angen un yno gan fod llawer o sbwriel yn cael ei daflu ar hyd y ffordd. **Penygroes** - gofyn a oes modd i Gyngor Gwynedd ddod i wagio biniau'r stryd yn amlach gan eu bod yn gorlenwi yn sydyn. Y safle bws dros y ffordd i'r co-op wedi ei falurio. Angen gofyn i'r heddlu / cyngor Gwynedd edrych ar y CCTV i weld beth sydd wedi bod yn mynd ymlaen. Cynigwyd efallai y buasai Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - _____ Dyddiad - _____

yn syniad rhoi lluniau o'r difrod ar dudalen facebook y cyngor yn nodi beth yw cost trwsio hyn a bod pethau fel hyn yn mynd ag arian a all gael ei ddefnyddio ar gyfer pethau eraill yn y gymuned. Cynigwyd hefyd efallai y buasai yn syniad cynnal sgwrs yn y Clwb Ieuencid am waith y Cyngor Cymuned a beth mae yn ei olygu i'r ardal. Pant yn y palmant o flaen 29 Stryd Yr Wyddfa a dŵr yn casglu yno - angen sylw. Drip yn y palmant o flaen maes parcio'r Fic ac angen sylw cyn bydd rhywun wedi baglu yno. Y grisiau sydd yn mynd fyny i'r llwybr o ymyl Wynnstay, mae'r coed wedi dechrau dod yn rhydd ac yn beryglus pan mae pobl yn cerdded arnynt. Y gwair ar gylchdro Penygroes / Llanllyfni angen ei dorri gan nad oes modd gweld cerbydau yn dod o amgylch y cylchdro. Blwch postio Trem Yr Wyddfa wedi ei wthio drosodd ac angen ei sythu yn nôl. Maes parcio dros y ffordd i'r co-op - tyllau yno ac angen sylw cyn bydd rhywun yn baglu a brifo. Y clerc i gysylltu gyda'r gwahanol sefydliadau am y materion hyn.

10. Tir Cwtin - (bu i Justin Davies adael y cyfarfod). Adroddwyd bod e-bost wedi ei dderbyn gan ein cyfreithwyr yn nodi ei bod wedi derbyn yr 'undertaking' gan gyfreithwyr Cwtin CBC a'i bod nawr am ddrafftio'r brydles. Y clerc i gysylltu gyda hi i ofyn a oes modd cael y brydles cyn cyfarfod mis Gorffennaf er mwyn ei drafod ac er mwyn cael symud pethau ymlaen.

11. CYNLLUN ADFYWIO DYFFRYN NANTLLE - roedd pawb wedi derbyn yr e-byst a oedd wedi eu cael dros y mis am wahanol agweddau o hyn. Gofynnwyd a buasai modd holi Grŵp Cynefin faint o'r tai yn Nhrem Engan sydd wedi eu rhoi i bobl leol, a beth yw eu diffiniad hwy o leol. Adroddwyd bod yna gyfarfod cynllun adfywio yn cael ei gynnal yn y Ganolfan Talysarn ar 25 Mehefin rhwng 6 a 8yh a bod croeso i unrhyw un fynychu. Dywedodd Nigel Williams ei fod o yn mynychu ar ran Cyfeillion Talysarn a'r bod hefyd yn fodlon cynrychioli'r Cyngor Cymuned ac adrodd yn nôl yn y cyfarfod nesaf.

12. DOROTHEA - adroddodd Dafydd Thomas ei fod wedi cyfarfod yr wythnos diwethaf gyda pherchnogion y chwarel er mwyn trafod rhai pethau megis y maes parcio. Adroddodd eu bod yn cael ychydig o drafferthion gyda chynllunio ar gyfer y maes parcio - ond adroddodd Cyng. Thomas ei fod wedi derbyn e-bost heddiw gan yr Adran Gynllunio yn nodi mwyaf tebyg y byddant yn gwrthod y cais gan nad yw Dorothea yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol sydd ei angen ar gyfer symud ymlaen a'r cais. Adroddodd Dafydd nad oes ganddynt gynlluniau pendant gyda dim byd ac roedd rhai o'r cynghorwyr yn cofio cyfarfod gyda hwy blynyddoedd nôl ym Mhant Du i drafod beth roeddynt yn mynd i wneud gyda newid y llwybrau ayyb - ond hyn yn hyn nid oes dim newid wedi bod. Cynigwyd y dylid mynd yn nôl atynt i ddweud wrthynt ddod atom pan fydd cais cynllunio wedi ei ddarparu i Gyngor Gwynedd. Cytunodd pawb gyda hyn.

13. CEISIADAU CYNLLUNIO

- C24/0314/22/DT – Llys Beuno, 18 Bryncelyn, Talysarn – estyniad unllawr i gefn eiddo – DIM GWRTHWYNEBIAD.

- C24/0167/22/DT – 59 Stryd Fawr, Penygroes – Adeiladu sied ar gyfer defnydd domestig – DIM GWRTHWYNEBIAD

14. GOHEBIAETH – nid oedd dim yn codi gyda'r ohebiaeth, ond mae angen i bawb fynd yn unigol i roi eu barn ar y rhaglen wrando ar 20mya.

15. MATERION ARIANNOL - pasiwyd i dalu'r isod

- Nia Jones – Ffôn a rhyngrwyd = £25.00

- Papur Bro Lleu – Hysbyseb - £38.00

16. UNRHYW FATER ARALL - gofynnodd Dylan Herbert pe bai'r Cyngor Cymuned yn ystyried cyfrannu tuag at ariannu Hwb Rygbi i ddisgyblion ysgolion Dyffryn Nantlle. Esboniodd yn fyr beth oedd yn ei olygu a gofynnwyd iddo a oedd modd gwahodd rhywun i'r cyfarfod mis nesaf i drafod ymhellach? Cytunodd y buasai yn gofyn i un o'r swyddogion sydd yn ymwneud ar brosiect i ddod mis nesaf.

Adroddwyd bod Christine Hughes (Ward Llanllyfni) wedi rhoi ei sedd ar y Cyngor Cymuned i fyny ac felly bod nawr angen hysbysebu sedd wag. Y clerc i roi hysbyseb ar y wefan ac ar dudalen facebook y cyngor, hefyd gyrru at Christine i ddiolch iddi am fod yn rhan o'r Cyngor Cymuned.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - _____ Dyddiad - _____